# Y Cynllun ar gyfer Sir Benfro (y tu allan i'r Parc Cenedlaethol) hyd 2033








Fersiwn hawdd ei darllen o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2.

## Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn



Fersiwn hawdd ei darllen yw hon.

Mae'r geiriau a'r hyn y maent yn ei feddwl yn hawdd eu darllen a'u deall.

Am ragor o gopïau o'r llyfryn hwn



E-bost ldp@pembrokeshire.gov.uk



Ffôn 01437 775367

Rhowch eich sylwadau inni ar y Strategaeth a Ffefrir erbyn y 4ydd o Chwefror 2019

## Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn .................................... 2

Introduction

Yr hyn y mae ein Haelod o'r Cabinet yn ei ddweud ......... 4

Am beth mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn sôn? ........ 6

Beth mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ei wneud? ..... 7

Cartrefi Newydd ..................................................... 8

Busnesau Newydd ................................................... 9

Gwneud Lleoedd Da i Bobl ...................................... 11

Prif Drefi ................................................................ 12

Pentrefi Mawr ......................................................... 14

Pentrefi Bychain ..................................................... 15

Cefn Gwlad ............................................................. 17

Newid yn yr Hinsawdd ............................................ 18

Siopau a Chanol Trefi ............................................ 19

Ymwelwyr ................................................................ 20

Cludiant .................................................................. 21

Beth fydd yn digwydd nesaf? .................................. 22

## Yr hyn y mae ein Haelod o'r Cabinet yn ei ddweud

Fy enw i yw Phil Baker.

Mae cynllunio ar gyfer dyfodol Sir Benfro yn rhan fawr o'm gwaith i.

Bydd Cyngor Sir Penfro yn meddwl am

- Faint o gartrefi newydd sydd eu hangen a ble y dylen nhw fod.
- Faint o swyddi newydd sydd eu hangen a ble y dylen nhw fod.
- Sut y gallwn ni amddiffyn y pethau sy'n arbennig ynglŷn â Sir Benfro.

Er enghraifft


- Cefn gwlad.
- Lle ar gyfer bywyd gwyllt a phlanhigion.
- Lleoedd i bobl fyw a gweithio a mwynhau.

Dywedwch wrthym beth yr ydych chi'n ei feddwl, os gwelwch yn dda.



Phil Baker, Aelod o'r Cabinet dros Gynllunio a Seilwaith

# Am beth mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn sôn?



Bydd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro yn edrych i weld



- Oes arnom ni angen mwy o gartrefi.




- Oes arnom ni angen mwy o swyddi.



- Oes arnom ni angen mwy o wasanaethau cymunedol.

Fe ddylen nhw fod mewn lleoedd da

- I bobl
- I blanhigion ac anifeiliaid

# Beth mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ei wneud?





- Dod o hyd i dir ar gyfer y cartrefi newydd y mae ar bobl eu hangen.






- Gwneud yn siŵr bod Cyngor Sir Penfro yn edrych ar ôl cefn gwlad a bywyd gwyllt.



- Gwneud y lle rydych chi'n byw yn lle gwell i fyw a gweithio.

Bydd Cyngor Sir Penfro yn edrych ar



- Yr hyn y mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid iddo ei wneud.
- Yr hyn y mae'r Llywodraeth yn dweud bod rhaid iddo ei wneud.
- Cynlluniau a dogfennau eraill.

Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau cadw Sir Benfro yn arbennig a bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn edrych ar y ffordd i wneud hyn.


# Cartrefi Newydd

**Mae Cyngor Sir Penfro yn credu**

- y bydd mwy o bobl yn byw yn Sir Benfro.



- y bydd mwy o bobl hŷn.
- y bydd llai o bobl iau.



**Yr hyn y mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau ei wneud**



- Caniatáu i gartrefi newydd gael eu hadeiladu.




- Caniatáu'r rhan fwyaf o gartrefi newydd mewn trefi a phentrefi mawr. Fe fyddan nhw'n helpu'r trefi a'r pentrefi hyn i gadw i fynd.



- Caniatáu'r cartrefi y mae ar bobl eu hangen.



- Caniatáu rhai cartrefi newydd sy'n haws i bobl eu fforddio.

Mae Cyngor Sir Penfro yn credu mai dyma'r ffordd orau i gadw Sir Benfro yn lle da i fyw.

# Busnesau Newydd

**Mae Cyngor Sir Penfro yn credu**



y bydd Porthladdoedd yn dal yn bwysig iawn ar gyfer

- Swyddi newydd.



- Ffyrdd newydd o wneud ynni.



- Teithio i wledydd eraill.

**Mae Cyngor Sir Penfro yn credu**





- y bydd angen mwy o swyddi yn Sir Benfro.




- y bydd angen swyddi yn agos i'r lle y mae pobl yn byw.

**Yr hyn sydd ar Gyngor Sir Penfro eisiau ei wneud**



- Rhoi tir ar gael i fusnesau gychwyn neu fynd yn fwy.
- Caniatáu busnesau newydd yn y lleoedd lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw.
- Caniatáu rhai busnesau newydd yng nghefn gwlad.



- Caniatáu i bobl weithio gartref.

Mae Cyngor Sir Penfro yn credu bod hyn yn ffordd dda o greu

- Mwy o swyddi.
- Mwy o swyddi sy'n cael eu talu'n dda.

# Gwneud Lleoedd Da i Bobl

**Mae Cyngor Sir Penfro yn credu**

Y gall helpu pobl i gael iechyd da a lles a'i gadw.

**Yr hyn y mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau ei wneud yw -**



- Gwneud yn siŵr bod Sir Benfro yn dal yn lle da i bobl yn y dyfodol.




- Edrych ar ôl bywyd gwyllt a chefn gwlad.



- Helpu pobl i gael ffyrdd iach o fyw.



- Helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau gan gynnwys y rhyngrwyd a ffonau symudol.



- Helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.



- Delio â'r newid yn yr hinsawdd a pheidio â'i wneud yn waeth.

Mae Cyngor Sir Penfro yn meddwl mai dyma'r ffordd orau i edrych ar ôl lles ein cymunedau.

Bydd yn help i wneud lleoedd da ar gyfer pobl a bywyd gwyllt yn y dyfodol.

## Prif Drefi

**Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau**




- i'r rhan fwyaf o gartrefi newydd gael eu hadeiladu yn ein prif drefi.




Y prif drefi yw.


- Hwlffordd
- Aberdaugleddau a Neyland
- Doc Penfro
- Penfro
- Abergwaun ac Wdig

**Bydd Cyngor Sir Penfro yn gwneud hyn drwy**

- Wneud yn siŵr bod y rhan fwyaf o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu mewn trefi.




- Penderfynu ble y bydd adeiladau newydd yn cael eu hadeiladu a ble na fyddan nhw.



- Gwneud yn siŵr y bydd pobl yn gallu

  Cerdded
  Beicio
  Defnyddio cludiant cyhoeddus



- Gwneud yn siŵr bod cartrefi newydd yn cwrdd ag anghenion pobl.

Helpu gwasanaethau i ddod i drefi, er enghraifft.





- Siopau.
- Swyddi.
- Lleoedd i aros.
- Ysgolion.
- Lleoedd i chwarae.

Mae Cyngor Sir Penfro yn credu y bydd hyn yn helpu i wneud lleoedd gwell ac yn helpu pobl i fyw lle mae yna swyddi.

# Pentrefi Mawr

**Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau.**



- I'r nifer cywir o gartrefi newydd gael eu hadeiladu yn ein pentrefi mawr.

**Bydd Cyngor Sir Penfro yn gwneud hyn drwy.**





- Wneud yn siŵr bod y nifer cywir o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn y pentrefi mawr.

- Penderfynu lle y bydd adeiladau newydd yn cael eu hadeiladu a lle na fyddan nhw.



- Gwneud yn siŵr bod cartrefi newydd yn cwrdd ag anghenion pobl.





- Helpu gwasanaethau i ddod i bentrefi mawr megis.
    - Siopau a swyddi
    - Lleoedd i aros
    - Lleoedd i chwarae

Mae Cyngor Sir Penfro yn credu y bydd hyn yn helpu i wneud pentrefi mawr yn lleoedd gwell i bobl

- Fyw,
- Gweithio,
- Defnyddio gwasanaethau.

## Pentrefi Bychain

**Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau.**



- I bentrefi bychain gael rhai cartrefi newydd i helpu i gadw cymunedau lleol i fynd.
- Mae pentrefi bychain yn cael eu galw'n bentrefi lleol.
- Ychydig o bobl na swyddi sydd ynddyn nhw.

**Bydd Cyngor Sir Penfro yn gwneud hyn drwy**




- Wneud yn siŵr bod y nifer cywir o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu mewn pentrefi bychain.
- Penderfynu lle y bydd adeiladau newydd yn cael eu hadeiladu a lle na fyddan nhw.



- Gwneud yn siŵr bod cartrefi newydd yn cwrdd ag anghenion pobl.



- Penderfynu pa wasanaethau cymunedol sy'n iawn i bentrefi bychain.

Rydym ni'n meddwl y bydd hyn yn gwneud lleoedd gwell ac yn helpu pobl i fyw mewn rhai cymunedau bychain.

# Cefn Gwlad

**Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau.**



- Caniatáu i bethau gwahanol fynd ymlaen yng nghefn gwlad, er enghraifft
- Lleoedd i bobl aros ar wyliau
- Siopau fferm

**Bydd Cyngor Sir Penfro yn gwneud hyn drwy**



- Wneud yn siŵr bod angen i fusnesau a chartrefi newydd yng nghefn gwlad fod yno.



- Caniatáu i ffermydd wneud pethau gwahanol.
- Caniatáu i fusnesau dyfu.



- Caniatáu i rai adeiladau gael defnydd newydd.
- Cadw cefn gwlad yn lle arbennig.

Mae Cyngor Sir Penfro yn meddwl y bydd hyn yn gwneud lleoedd gwell ac yn helpu pobl i fyw mewn cymunedau bychain.

# Newid yn yr Hinsawdd

**Mae Cyngor Sir Penfro yn credu.**



Bod tywydd y byd yn newid. Mae hyn yn cael ei alw'n Newid yn yr Hinsawdd.

Efallai y bydd y tywydd yn newid.

- Faint o law fydd yn disgyn
- Pa mor boeth neu oer fydd Sir Benfro
- Y lleoedd lle mae llifogydd

**Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau**






- Helpu planhigion ac anifeiliaid i ddelio â'r newid yn yr hinsawdd.



- Cadw adeiladau i ffwrdd oddi wrth y lleoedd sy'n cael llifogydd.



- Helpu pobl i
  - gerdded.
  - beicio.
  - defnyddio cludiant cyhoeddus.



  - gwneud llai o wastraff.

Bydd hyn yn helpu i wneud Sir Benfro yn lle gwell.

# Siopau a Chanol Trefi

**Mae Cyngor Sir Penfro yn credu**



- Na fydd angen llawer o siopau newydd.
- Mai'r lleoedd gorau ar gyfer siopau newydd yw canol trefi a phentrefi mawr.

**Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau**



- Caniatáu i siopau a busnesau newydd fod yn y lle gorau iddyn nhw.
- Gwneud yn siŵr bod siopau newydd yn ffitio i mewn.
- Gwneud yn siŵr bod adeiladau newydd yn ffitio i mewn yn dda.

Bydd hyn yn helpu i wneud lleoedd gwell i bobl fyw a gweithio a chael bywyd cymdeithasol.

# Ymwelwyr

**Mae Cyngor Sir Penfro yn credu**







- Bod pobl sy'n ymweld â Sir Benfro yn bwysig.
- Eu bod nhw'n helpu i gadw siopau a busnesau i fynd.
- Y gall mwy o bobl ymweld â Sir Benfro.

**Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau**



- Cael mwy o leoedd yn agored i ymwelwyr drwy'r flwyddyn.
- Cadw Sir Benfro yn lle da i bobl ymweld.

Bydd hyn yn helpu Sir Benfro i fod yn lle da i bobl ymweld, a byw.

# Cludiant

**Mae Cyngor Sir Penfro yn credu**



- Bod rhai ffyrdd angen eu gwella.



- Bod angen mwy o lwybrau i bobl allu
  - cerdded
  - neu feicio.
- Mae'r rhain yn cael eu galw'n llwybrau Teithio Llesol.

**Mae ar Gyngor Sir Penfro eisiau.**




- Dangos y lleoedd lle mae angen i ffyrdd gael eu gwella yn y Cynllun Datblygu Lleol.
- Gwneud yn siŵr bod yna.



  - Lwybrau cerdded.
  - A llwybrau beiciau mewn mwy o leoedd.

Mae Cyngor Sir Penfro yn credu y bydd hyn yn helpu pobl i deithio yn ddiogel a mwynhau dulliau iach o fyw.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd Cyngor Sir Penfro yn edrych ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym am y Cynllun Datblygu Lleol.

Efallai y byddwn yn newid y Cynllun Datblygu Lleol ar ôl darllen yr hyn sydd gennych chi i'w ddweud.

Mae angen i Gyngor Sir Penfro ysgrifennu mwy am y ffyrdd y bydd yn gwneud Sir Benfro yn lle da.

Mae peth o hyn wedi cael ei wneud yn barod.

Bydd Cyngor Sir Penfro yn gofyn i chi beth yr ydych chi'n ei feddwl am y ffyrdd hyn hefyd yn y dyfodol.